# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 14 Gorffennaf 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(280)v5

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Cyhoeddi Adroddiad Flynn (45 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Cyflwyniad i'r Bil Casglu a Rheoli Trethi (60 munud)**

**5 Dadl ar y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2015-2016 (30 munud)**

**NDM5798 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 23 Mehefin 2015.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

(i) y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

(ii) yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

(iii) cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

(iv) cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig; a

(v) cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:

- nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

**Dogfen Ategol**
Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

**6 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015 (45 munud)**

**NDM5813 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mai 2015.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015

Memorandwm Esboniadol *(Saesneg yn unig)*
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Llythyr o Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Ymateb gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**7 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (60 munud)**

**NDM5814 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Gosodwyd Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 23 Chwefror 2015.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 3 Gorffennaf 2015.

**Dogfennau Ategol**
Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Llythyr o Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid i Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol a'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)
(Saesneg yn unig)

**8 Dadl ar Benderfyniad Ariannol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (5 munud)**

**NDM5815 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

**9 Cyfnod pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 15 Gorffennaf 2015